

Cynllun Efe

Yng nghyfarfod Ymddiriedolwyr Efe bnawn Llun diwethaf penderfynwyd y byddwn yn penodi Gweithiwr Ieuenctid newydd yn ystod yr wythnosau nesaf, i ddechrau yn y swydd erbyn mis Medi. Gweddwiwch am fendith Duw ar y cyfan.

Ddydd Llun, Mawrth 10, cawn ymweld â chynhadledd Gristnogol *Word Alive* yng ngwersyll Pontins ym Mhrestatyn i sôn am waith Cynllun Efe. Cawsom addewid o arian at ein gwaith o ran o'r casgliadau a wneir yn ystod yr wythnos.

Cymorth Cristnogol

Dyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni fydd Mai 14–20. Mae'r angen yn amlwg yn fawr ym mhob ystyr. Mae gwir angen yr arian a gesglir yn ystod yr Wythnos i gefnogi gwaith yr elusen hon o estyn cymorth i bobl sy'n dioddef yn ein byd. Ac yn lleol, mae angen pobl i helpu gyda'r gwaith o gasglu o ddrws i ddrws os yw'r ymdrechion lleol i lwyddo.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ebrill 2: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 26

5.00 p.m. - Mr Thomas A Williams

Ebrill 2

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Ebrill 9 (Sul y Blodau)

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Ebrill 16 (Sul y Pasg)

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ebrill 2: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Norman Closs Parry. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Ni fydd oedfa'r hwyr.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 2: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ebrill 2: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones.

CARMEL

Dydd Llun, Mawrth 27: Y Te Bach rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mawrth 31: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 2: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Mawrth 27: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Ebrill 2

10.00 a.m. - Mr Norman Closs Parry

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - DIM OEDFA

Ebrill 9 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. - Y Gweinidog

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ebrill 16 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. - Y Parchg Euros Jones



Mae'r bunt yn werth tipyn llai ers i Mrs May gyhoeddi'r wythnos ddiwethaf y bydd, ddydd Mercher, yn anfon llythyr at yr Undeb Ewropeaidd i gychwyn y drafodaeth ynghylch telerau gadael yr Undeb. Chewch chi ddim cymaint o ddoleri'r America wrth gyfnwid eich punnoedd erbyn hyn. Mae hynny'n golygu y bydd eich gwyliau nesaf yn Efrog Newydd yn ddrutach, yn union fel y bydd prynu nwyddau o dramor yn ddrutach i gwmniau a busnesau.

Mae hefyd yn golygu bod y ffortiwn a addawyd i mi fore Gwener yn llai o werth nag a fuasai wythnos yn ôl. Ond gan ein bod yn sôn am naw miliwn a hanner o ddoleri, wna i ddim poeni'n ormodol. Naw miliwn a hanner; dyna'r swm a adawyd i mi (yn ôl yr e-bost a ddaeth acw ddydd Gwener) yn ewyllys Mr Enok, hen berthynas i mi na wyddwn ddim oll am ei fodolaeth. Roedd y bargyfreithiwr a anfonodd yr e-bost yn pwysu arnaf i gysylltu ag o. Yr unig bwyso wnes i oedd gwasgu botwm 'Delete' y cyfrifiadur er mwyn gwared â'r neges ar unwaith. A dyna, gobeithio, y bydd pawb ohonoch yn ei wneud bob tro y cewch chithau neges o'r fath.

Mae'r negeseuon hyn yn dangos y gwaethaf am y ddynoliaeth. Eu hunig fwrriad yw twyllo a lladrata. Tristwch pethau yw bod rhai'n ymateb iddynt, o ran cywreinrwydd efallai, neu'n fwy tebygol trwy gamgymeriad. Dylai'r straeon am bobl yn colli cannoedd a miloedd o bunnoedd fod yn ddiagon o

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 722: Dydd Sul, 26 Mawrth, 2017

Doleri

rybudd i bawb ohonom i fod ar ein gwyladwriaeth rhag y twyll hwn. Mor ffaidd y gall pobl fod, yn treulio'u hamser yn anfon negeseuon at bobl cwbl ddieithr gan obeithio dwyn eu harian. Peidiwch, da chi, â chael eich temtio i wneud unrhyw beth ond gwasgu 'Delete' pan welwch neges debyg.

Yn nhymor y Pasg, cawn ein hatgoffa o'r ffordd y gwnaeth Iesu ymateb i'r twyll a welodd yn nheml Jerwsalem. Mewn rhyw ffordd, roedd yntau'n gwasgu'r botwm 'Delete' wrth droi byrddau'r cyfnewidwyr arian anonest a'u hanfon o'r deml gyda'r bobl oedd yn codi crochris am anifeiliaid yr oedd pobl yn eu haberthu yn yr addoliad. Mae'r hyn a wnaeth yn dangos ei fod yn ffeiddio'r twyll. Ac nid y twyll hwn yn unig; roedd drygioni o bob math yn ffaidd yn ei olwg.

Nid y twyll ariannol oedd y prif beth yr oedd Iesu'n ymateb iddo ond y twyll crefyddol oedd yn halogi'r addoliad. Gwelai bobl yn camddefnyddio'r deml a'i chrefydd a'i haddoliad i'w dibenion eu hunain. Aethai addoliad gonest yn ddieithr iawn i'r bobl oedd yn arwain yn y deml; ac roedd parch at Dduw a'i gyfraith wedi ei golli. Y prawf amlwg o hynny oedd bod y bobl hyn yn credu y medrent addoli Duw a chynllwynio'r un pryd i ladd Iesu. A'r un yw ymateb yr Arglwydd Iesu bob amser i addoliad gwag. A dyna pam y diolchwn eto heddiw am y gras sy'n ein galluogi i roi i Dduw addoliad cywir a gonest.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Ond nid gelyn a'm gwawd-
iodd – gallwn oddef hynny;
nid un o'm caseion a'm
bychanodd – gallwn guddio rhag hwnnw;
ond ti, fy nghydradd, fy nghydymaith, fy
nghydnabod – buom mewn cyfeillach
felys â'n gilydd wrth gerdded gyda'r
dyrfa yn nhŷ Dduw' (Salm 55:12–14).

BEIBL BYW

Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am
10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan Mr Thomas Alun Williams,
Caernarfon.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00
o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am
10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00
o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

'Y Ffordd'

Cynhelir cyfarfod nesaf 'Y Ffordd' yn
festri Carmel nos Fercher, Ebrill 5 am
7.00 o'r gloch. Ceir rhagor o fanylion am
y pynciau a draffodir yr wythnos nesaf.

Pwyllgor Ebeneser

Cynhelir Pwyllgor Capel Ebeneser yn y
festri am 7.00 o'r gloch nos Lun, Ebrill 3.

Casgliad y Genhadaeth

Tua'r adeg yma o'r flwyddyn y gwneir y
casgliad blynyddol yn Capel Coch at
Gronfa Genhadol Chwiorydd Eglwys
Bresbyteriaidd Cymru.

Gwneir y casgliad eleni eto, a gobeithiwn
gael y cyfan i law o fewn y pythefnos
nesaf, erbyn dydd Sul y Pasg, Ebrill 16.
Gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys
Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd
yn dod o amgylch fel arfer. Diolch
ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Defnyddir yr arian hwn gan Adran y
Chwiorydd y Presbyteriaid i gefnogi
gwaith cenhadol a wneir gan weithwyr
amrywiol o fewn yr enwad a gwahanol
brosiectau cenhadol a dyngarol yma yng
Nghymru a thramor.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch nos Wener,
nesaf yma, Mawrth 31.

Llanw

Bydd Gŵyl Llanw yn cael ei chynnal yng
Nghricieth unwaith eto eleni.

Dyma'r trydydd tro iddi gael ei chynnal
yno, a'r dyddiadau eleni yw Ebrill 17 hyd
Ebrill 20. Bydd yn cychwyn felly ddydd
Llun y Pasg.

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae
Llanw wedi datblygu'n ŵyl boblogaidd
sy'n denu cannoedd o Gristnogion o bob
oed o bob rhan o'r wlad. Bydd croeso
cynnes i bawb a fydd yn mynd yno.

Dros dri bore ceir anerchiadau gan y
Parchg John Treharne, Llwynhendy.
Bydd gwahanol seminarau yn ystod y
prynhawn. A cheir oedfaon mawl bob
gyda'r nos, ac amrywiaeth o bobl yn eu
harwain ac yn annerch ynddyn nhw.

Ceir manylion llawn am holl gyfarfodydd
yr wythnos ar wefan Llanw,
www.llanw.org

Nid oes rhaid aros yno wrth gwrs. Mae
llawer iawn yn dewis mynd i Llanw am y
dydd neu i ambell un o'r cyfarfodydd.
Mae hynny yn bosibl wrth gwrs i ni sy'n
byw o fewn cyrraedd i Gricieth.

Trip Dwylo Pysur

Bydd criw Dwylo Pysur, Capel Carmel
yn ymweld â Chlynnog a Phwllheli y mis
nesaf, ac mae Mrs Helen Williams
wrthi'n brysur yn cwblhau'r trefniadau ar
hyn o bryd.

Tearfund

Mae elusen Gristnogol Tearfund newydd
gyhoeddi ei Apêl Argyfwng Dwyrain
Affrica 2017 er mwyn estyn cymorth i
bobl sy'n wynebu newyn dychrynlyd.
Mae hyd at **16 miliwn o bobl yn dioddef**
ac ar fin llwgu. Gellir cyfrannu at yr
Apêl ar-lein trwy

www.tearfund.org/savelives

Taflen

Mae'r daflen a baratwyd gan eglwys
Bethlehem Talybont wedi ei hargraffu ac
yn cael ei dosbarthu i gartrefi'r pentref er
mwyn cyflwyno gwaith yr eglwys i
drigolion yr ardal a'u gwahodd i ymuno â
ni yn yr oedfaon. Diolch i bawb sy'n
helpu i'w dosbarthu. Gweddiwn y cawn
ymateb calonogol i'r ymdrech genhadol
hon.

Cyfarfod Chwarter

Cynhaliwyd Pwyllgor Gwaith Cyfarfod
Chwarter yr Annibynwyr ym Methlehem,
Talybont fore Mawrth, i drefnu ar gyfer y
Cyfarfod Chwarter sydd i'w gynnal yn
Salem Caernarfon, nos Fercher, Ebrill 26.

LLANW

Cricieth

O nos Lun, Ebrill 17 hyd nos Iau, Ebrill 20

Cyfarfodydd y bore am 10.00 o'r gloch

Cyfarfodydd yr hwyr am 7.00 o'r gloch